# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG DYDD IAU, 21 GORFFENNAF 2016

**Yn bresennol:**

**Cynghorwyr** :
Eryl Jones-Williams (Cadeirydd), Annwen Daniels a Louise Hughes

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO**

**1. CAIS AM AMRYWIAD I DRWYDDED EIDDO – THE FIRECAT COUNTRY HOUSE B&B, CAMLAN UCHAF, MALLWYD**

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

| | |
|---|---|
| **Ar ran yr eiddo:** | Mr Robin Worgan (ymgeisydd) ac Amber Worgan |
| **Aelod Lleol:** | Cynghorydd John Pughe Roberts |
| **Eraill a fynychwyd:** | Arfon Hughes (Cyngor Cymuned Mawddwy), Euron Thomas (Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd – Cyngor Gwynedd) |

a) Nododd y Cadeirydd bod yr Is Bwyllgor, yn dymuno gohirio'r cyfarfod er mwyn trefnu ymweliad safle i aelodau'r Is Bwyllgor ystyried yn llawn y pryderon a fynegwyd gan wrthwynebwyr i'r cais ar sail mynediad i'r safle.

b) Amlygodd y Cyfreithiwr bod Diogelwch y Cyhoedd yn un o egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003. Nododd mai synhwyrol fuasai cynnal ymweliad safle gan mai un o brif gyfrifoldebau yr Is Bwyllgor yw ystyried diogelwch y cyhoedd

**PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle ac ail drefnu gwrandawiad**

Dechreuodd y cyfarfod am 1:15am a daeth i ben am 1:30pm

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 1.20 y.h.

**CADEIRYDD**